Grŵp Cynefin

# Dewch yn Aelod Bwrdd Grŵp Cynefin!

Mae Grŵp Cynefin yn chwilio am Aelodau newydd i ymuno â'n Bwrdd Rheoli – cyfle gwych i gyfrannu at ddyfodol sefydliad sy'n gwneud gwahaniaeth go iawn i gymunedau. Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar ein Bwrdd, sydd hefyd â phrofiad yn y meysydd isod, neu debyg:

- llywodraethu
- risg
- trawsnewid busnes
- mewnweledlad cwsmer

**Lleoliad:** Amrywiol (yn gymysgedd o gyfarfodydd rhithiol, hybrid a wyneb yn wyneb)

**Tâl:** £4,000 y flwyddyn

**Ymroddiad:** Tua 20 diwrnod y flwyddyn

**Dyddiad cau:** Hanner dydd 4 Mawrth 2026

www.grwpcynefin.org

*Gwnewch wahaniaeth go iawn i'n cymunedau – ymgeisiwch heddiw!*

“Lle i berthyn”

PECYN GWYBODAETH

# Recriwtio Aelodau Bwrdd

Grŵp Cynefin

Diolch am eich diddordeb yn y rôl Aelod o’r Bwrdd Rheoli.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i Grŵp Cynefin wrth i ni barhau ar daith drawsnewidiol tuag at ddiwylliant sy’n canolbwyntio’n ddiffuant ar y cwsmer a chanlyniadau.

Rydym yn awyddus i benodi unigolion  ar ein Bwrdd Rheoli sy’n adnabod ein cymunedau ac all barhau i siapio’r gwaith rhagorol sy’n digwydd eisoes wrth i ni gyflawni ein gweledigaeth ‘i fod yn sefydliad cynhwysol ac effeithiol sy’n darparu cartrefi diogel, cynaliadwy, o ansawdd’.

Mae hyrwyddo a dathlu ein hunaniaeth Gymreig a’r iaith Gymraeg yn bwysig iawn i ni, ac mae gennym ddiddordeb arbennig mewn cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar ein Bwrdd, sydd hefyd â phrofiad yn y meysydd isod, neu debyg:

- Llywodraethu a Risg
- Trawsnewid busnes / Dansoddi Data
- Mewnwelediad cwsmer
- Dealltwriaeth o’r sector dai yng Nghymru

Mae aelodau Bwrdd yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol o £4,000 gros y flwyddyn, yn ogystal â chostau teithio ayb, ac mae nifer o fanteision eraill o fod yn aelod o’r Bwrdd Rheoli.  Byddwch yn:

- derbyn cefnogaeth a chymorth fel aelod newydd e.e. rhaglen anwytho
- derbyn cyfleoedd datblygiad personol
- ymuno gyda sefydliad sydd yn uchel ei barch ac yn uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol
- gweithredu ar lefel strategol
- cefnogi’r iaith a diwylliant Cymraeg
- derbyn tanysgrifiad i gylchgrawn digidol ‘Inside Housing’
- cyfrannu at wneud gwahaniaeth ‘go iawn’ i fywydau pobl a chymunedau lleol

Rydym wedi ymrwymo i gynyddu amrywiaeth a chynhwysiant a chymryd camau i leihau anghydraddoldeb.  Rydym yn annog ceisiadau gan unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig neu o gefndiroedd amrywiol, ag yn benodol gan bobol ifanc a phobl ag anableddau.

Estynnwn wahoddiad i chi gael sgwrs anffurfiol â mi neu’r Prif Weithredwr.  Cysylltwch ag Eleri Jones, Rheolwr Llywodraethu ar 07880037129 neu trwy e-bostio eleri.jones@grwpcynefin.org. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd **4 Mawrth 2026**.

Mae hon yn rôl gyffrous a gwerth chweil, un lle gallwch ddefnyddio’ch sgiliau i roi rhywbeth yn ôl i’r cymunedau yr ydym yn gweithio ynddynt.

Diolch eto am eich diddordeb.


**Tim Jones**
**Cadeirydd**



Grŵp Cynefin

## Rôl Aelod o'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol ar y cyd am sicrhau llwyddiant Grŵp Cynefin a sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r holl ymrwymiadau cyfreithiol a rheoleiddiol trwy gyfarwyddo a goruchwylio ei fusnes. Mae'r Bwrdd Rheoli wedi sefydlu pedwar pwyllgor. Mae Grŵp Cynefin yn riant-gorff i ddau is-gwmni, Canllaw (Eryri) Cyf. a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych.




## Cyfarfodydd

Cynhelir chwech cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli mewn blwyddyn, hwyr pnawn gan amlaf, a disgwylir i bob aelod o'r Bwrdd fod yn aelod o o leiaf un o'r Pwyllgorau, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfodydd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a chyfieithiad Saesneg o'r agenda a'r adroddiadau yn cael eu darparu, fel bo angen. Mae croeso i aelodau gyfrannau yn Gymraeg neu Saesneg. Mae fformat cyfarfodydd yn amrywio ac yn gymysgedd o gyfarfodydd rhithiol, hybrid a wyneb yn wyneb.

## Ymrwymiad Amser

Rhagwelwn ymrwymiad amser o isafswm o 20 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis, ynghyd ag oddeutu dau 'Ddiwrnod Strategol' i'r Bwrdd y flwyddyn, hyfforddiant achlysurol, cysylltiadau cyhoeddus neu ddigwyddiadau eraill. Mae cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn para oddeutu 2 awr.

## Cydnabyddiaeth

Yn amodol ar arwyddo'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth, bydd aelodau yn derbyn cydnabyddiaeth o £4,000 gros y flwyddyn i ymgymryd â'ch dyletswyddau fel aelod Bwrdd, a fydd yn cael ei dalu yn fisol ar ôl tynnu PAYE ac yswiriant gwladol Dosbarth 1 os yw'n berthnasol. Telir costau teithio / costau gwarchod plant i'r aelodau fynychu unrhyw gyfarfodydd.

## Hyfforddiant

Yn ogystal â rhaglen anwytho llawn, bydd cyfleoedd i fynychu hyfforddiant a digwyddiadau perthnasol. Yn flynyddol bydd proses arfarnu ffurfiol, ddwy-ffordd sy'n cael ei arwain gan y Cadeirydd. Bydd yn rhoi cyfle i chi drafod eich cyfraniad a'ch anghenion hyfforddiant a datblygu fel aelod o'r Bwrdd.

## Sut i Ymgeisio

Cyflwynwch CV (Curriculum Vitae) cyfredol a llythyr esboniadol os gwelwch yn dda i eleri.jones@grwpcynefin.org. Yn y llythyr esboniadol, dywedwch wrthym pam yr hoffech chi ddod yn aelod o'r Bwrdd, a beth yw'r sgiliau a'r profiadau sydd gennych i'w cynnig.

Gofynnwn i chi gadarnhau hefyd, wrth gyflwyno eich cais:

- A ydych chi'n gweithio i neu'n meddu ar gysylltiadau gydag unrhyw gorff sydd ag unrhyw fath o berthynas (busnes neu elusennol) â Grŵp Cynefin. Mae hyn yn cynnwys unrhyw berthnasau agos sy'n gweithio i neu'n darparu gwasanaethau i'r sefydliad.
- A ydych chi'n cael eich cyflogi neu'n gweithredu fel cyfarwyddwr anweithredol darparydd tai cymdeithasol arall yn y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd.

Byddem yn ddiolchgar hefyd pe baech yn cwblhau Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Bydd hyn yn cynorthwyo Grŵp Cynefin wrth fonitro penderfyniadau dethol i asesu a yw'n cyflawni cyfle cyfartal. Ni fydd unrhyw wybodaeth a gesglir o'r Ffurflenni Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth Recriwtio yn cael eu defnyddio fel rhan o'r broses ddethol a byddant yn cael eu trin mewn cyfrinachedd llwyr.

**DYDDIAD CAU: Hanner dydd 4 Mawrth 2026**

**CYFWELIADAU: Dydd Mawrth w/c 9 Mawrth 2026**

### Atodiadau

1. Rôl Aelod Bwrdd
2. Cytundeb Lefel Gwasanaeth Aelod Bwrdd
3. Cynllun Corfforaethol Grŵp Cynefin, 2025-2028
4. Ffurflen Fonitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas gofrestredig dan y Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 dan rif 21194R, ac yn gymdeithas dai elusennol sydd wedi eichofrestru gyda Llywodraeth Cymru dan rif LO29.

Grŵp Cynefin